**EITEM 8 – CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Roberts**

“Yn 2019 mi wnaethom ni fel Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd a Natur gan dderbyn bod newid eithafol yn yr hinsawdd yn effeithio yn negyddol ar ein cymunedau ni, a ledled y byd. Mae’r risgiau newid yn yr hinsawdd yn rai go-iawn i nifer o driolion Gwynedd - o lifogydd i dirlithriadau, ac eithafion tywydd cynnes ac oer – mae’r gost o anwybyddu'r argyfwng hinsawdd yn cynyddu. Ers i ni gychwyn ein gwaith i leihau allyriadau carbon gyda Chynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd faint o garbon mae’r Cyngor wedi arbed, a allwch chi ymhelaethu ar faint o arian mae’r newidiadau yma wedi arbed i’r Cyngor?”

**Ateb – Arweinydd y Cyngor, Y Cyghorydd Dyfrig Siencyn**

“Mae’n wir ein bod fel Cyngor wedi ymrwymo i leihau effaith ein gweithgareddau ar ein hamgylchfyd ymhell cyn i ni ddatgan Argyfwng Hinsawdd a Natur yn 2019. Yn ôl yn 2010, bu i ni fabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon er mwyn rheoli a lleihau ein hôl troed carbon. Ers ei gyflwyno, rydym wedi arbed 103,757 tunnell o garbon o’r allyriadau sy’n cael ei greu drwy ddefnydd ynni ein hadeiladau (ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi preswyl, llyfrgelloedd, swyddfeydd a mwy), ein goleuadau stryd, ein fflyd a defnydd o geir, a’n gwastraff.

Ar ôl degawd o weithredu a llwyddo yn y maes cadwraeth ynni, roedd ôl troed carbon blynyddol ein gweithgareddau uniongyrchol 43% yn llai na’r oedd cyn i ni gychwyn ar y siwrne yma.

Ers 2010, rydym wedi gweithio’n ddiflino i geisio manteisio ar unrhyw gyfle posib i fod yn lleihau ein hôl troed carbon, gan gynnwys buddsoddi £7.4M mewn cynlluniau megis 613kWp o baneli solar ar 55 o’n safleoedd er mwyn creu trydan ein hunain, uwchraddio goleuadau a lampau i’r dechnoleg mwyaf cyfredol, ynysu ein hadeiladau er mwyn cadw’r gwres, gorchuddio pyllau nofio dros nos, a llawer iawn mwy. Mae’r tîm ynni ymroddgar hefyd yn edrych ar batrymau defnydd ynni ein hadeiladau yn gyson er mwyn adnabod gwastraff ac i sicrhau effeithlonrwydd ac yn defnyddio meddalwedd sy’n eu galluogi i reoli defnydd ynni ein amrywiol adeiladau ar hyd a lled y sir o swyddfa’r tîm yng Nghaernarfon.

Yn wir, mae Tîm Ynni Cyngor Gwynedd wedi cael cydnabyddiaeth cenedlaethol o’u gwaith gan iddynt guro gwobr ‘Tîm Rheolaeth Ynni y Sector Gyhoeddus’ yng ngwobrau Energy Managers Association Prydain yn 2020.

Mae’r holl waith yn y maes yma wedi arwain at gyfanswm arbediad ariannol o £14.75M i’r Cyngor ers 2010.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at y budd ariannol syfrdanol yr ydym yn elwa ohono erbyn heddiw, oherwydd ein llwyddiant dros y degawd ddiwethaf. Pe byddem wedi parhau i ddefnyddio yr un faint o ynni ag yr oeddem yn ei ddefnyddio yn 2010, byddai ein biliau ynni wedi bod £4.3M yn uwch y llynedd. Pe byddem wedi gorfod talu’r gost ychwanegol yma, byddai wedi arwain at £4.3M yn uwch o doriadau mewn gwasanaethau rheng flaen, neu gynyddu’r Dreth Cyngor 5.4% yn uwch na’r cynnydd eleni.

I gloi felly, rhaid tynnu sylw at y ffaith ein bod ni fel Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i’r agenda yma ymhell cyn datgan Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ôl yn 2019, a’n bod dros y

blynyddoedd wedi llwyddo i wneud gwahaniaeth drwy reoli ein hôl troed carbon uniongyrchol fel cyfraniad i warchod ein hamgylchfyd ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae'r gwaith hynny yn parhau wrth gwrs ac yn ehangu fel byddwn yn ceisio cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o fod yn garbon net sero erbyn 2030. Byddwn angen bod yn fyw i'r ffaith y bydd y cyfnod nesaf yn fwy heriol fyth, wrth i ni fynd i'r afael ag allyriadau carbon sy'n deillio o'n gweithgaredd caffael, cymudo i'r gwaith ayb."

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

"Ar wahân i ffurfio tasglu ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ag Economi, pa gamau rhagweithiol y mae'r Adran Addysg wedi eu cymryd i ddiweddaru Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd fel ei fod yn fwy cydnaws â'r drefn gategoreiddio newydd ar gyfer y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sy'n weithredol ers Medi 2022?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg – Y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae Cyngor Gwynedd yn ymfalchïo yn ei draddodiad hir o gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Dyma'r sir â'r nifer uchaf o blant a phobl ifanc sydd yn medru'r Gymraeg, a chyda hynny o bell ffordd. Nid ar chwarae bach mae cyflawni hynny, a dw i'n siŵr bod pob un ohonom yn ymfalchïo yn llwyddiant ein Polisi Iaith Addysg dros y blynyddoedd er mwyn cyflawni hynny. Dyma'r sir ddaru arloesi gyda'r Siarter Iaith cynradd, ddaru esgor ar ei ledaenu'n genedlaethol. Gwynedd yw'r unig sir sydd â strategaeth iaith uwchradd, ac rydym yn parhau i arloesi heddiw gyda datblygiad y dechnoleg VR ac Aberwla fel rhan o ddarpariaeth ein cyfundrefn addysg drochi, fydd eto'n cael ei ledaenu'n genedlaethol maes o law. Dyma'r pethau sydd yn sicrhau bod Y Gymraeg yn iaith feunyddiol i'n plant a'n pobl ifanc, a'n bod ni'n sir gynhwysol sydd yn cefnogi a chofleidio newydd-ddyfodiaid i gaffael yr iaith a dod yn siaradwyr Cymraeg. Mawr yw ein cyfraniad fel sir i gyflawni gweledigaeth a thargedau Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru.

Mater lleol i ni yng Ngwynedd yw ein polisi iaith addysg, a mater i'r Cabinet yw i ystyried i ba raddau yr ydym yn credu bod angen cymryd camau i ddiweddaru'r polisi ai peidio. Mae'r canllaw cenedlaethol ar y drefn categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ganllaw anstatudol ar hyn o bryd, ac nid oes disgwyl i ysgolion gofnodi eu categori yn unol â'r canllaw tan CYBLD (PLASC) Ionawr 2024. Fframwaith genedlaethol weinyddol yw'r drefn gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn hytrach nag erfyn i newid polisi yn lleol, ac mae fframwaith weinyddol genedlaethol wedi bodoli ers 2007.

Serch hynny, rwy'n hynod o falch o allu datgan y bwriad i ddiweddaru'r Polisi Iaith er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt yn y byd addysg yn ddiweddar e.e. bydd Cwricwlwm i Gymru yn weithredol ymhob un o ysgolion Gwynedd a Chymru o Medi 2023 ymlaen. Rydym hefyd fel Adran wedi bod yn casglu gwybodaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ein hysgolion, a bydd y wybodaeth yma, ynghyd â chanfyddiadau'r ymchwiliad craffu sydd yn edrych ar y Gymraeg mewn 3 ysgol uwchradd yn y sir (a fydd yn hysbys ym Medi 2023), o gymorth wrth i ni fynd ati i ddiweddaru'r Polisi Iaith dros y misoedd nesaf.

Mae cyfrifoldeb statudol yr Awdurdod am y Gymraeg drwy'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac mae'r CSGA 10 mlynedd yn seiliedig ar ein Polisi Iaith cyfredol a'n gweledigaeth ni yma yng Ngwynedd o sicrhau'r cyfle gorau i bob plentyn a pherson ifanc yn y sir i ddod yn siaradwyr Cymraeg ac yn hyfedr ddwyieithog. Byddwn yn parhau i

ystyried effaith pellgyrhaeddol cynnwys ein Polisi Iaith presennol o fewn y fframwaith statudol yma wrth i ni ystyried cyfoesi'r polisi i'r dyfodol."

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"Mae darpariaeth newydd ym maes gofal yn rhywbeth i'w groesawu, ond ai priodol yw mynegi cymeradwyaeth a chefnogaeth ddiamod, ymlaen llaw, i gynlluniau sy'n rhwymo'r gyfryw ddarpariaeth wrth ddatblygiad tai nad yw ei raddfa o reidrwydd yn gymesur â'r angen am dai yn lleol a chan cymylu a drysu'r materion hyn, gofal a thai, nes tanseilio ymlaen llaw yr ymdrech i gloriannu effeithiau cymdeithasol posibl y cyfryw gynlluniau?"

**Ateb – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant – Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

"Rydym yn cael ein calonogi bod y cynghorydd yn croesawu'r ymdrechion ddatblygu darpariaeth gofal newydd ar safle Penyberth. Ail sefydlu ac adeiladu ar ddarpariaeth sydd wedi bod yn cael ei gynnig ar y safle ers dros 70 mlynedd ydi hyn ac mae'n gyfle i lenwi bwlch sylweddol mewn darpariaeth gofal dementia a nyrsio sy'n bodoli yn y Sir ac yn benodol yn ardal Llŷn.

Cyhoeddwyd ymchwil ar lefel genedlaethol gan Housing Learning & Improvement Network (LIN) yn ôl yn 2020. Roedd yn edrych ar y ddarpariaeth ar y pryd ac anghenion tai a lleoliadau ar gyfer gofal ar draws holl awdurdodau lleol Cymru erbyn 2035. Ar gyfer Gwynedd roedd yr ymchwil yn dangos angen tebygol i ddarparu :-

- 640 o gartrefi ychwanegol ar gyfer pobl hŷn – (cynnydd o 66%)
- 162 o gartrefi gyda gofal e.e. tai gofal ychwanegol – (cynnydd o 69%)
- 276 o welyau nyrsio ychwanegol – (cynnydd o 45%)

Yn ystod y 9 mis nesaf fe fydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yr Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Tai ac Eiddo yn ymgymryd a gwaith fydd yn diweddaru'r data yma fel rhan o waith ehangach i edrych ar anghenion tai a gofal ar draws Gwynedd.

Ochr yn ochr a hyn, rwy'n siŵr y bydd yr aelodau wedi sylwi ar y data sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth sydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn heddiw. Mae hwnnw hefyd yn dangos cynnydd sylweddol yn y boblogaeth hŷn dros y blynyddoedd nesaf ac yn sgil hynny cynnydd yn yr angen i gael darpariaeth addas a phriodol o gartrefi i'n trigolion.

Rwy'n siŵr felly y bydd yr aelod yn deall pam fy mod i a'm cyd aelodau yn y Cabinet ac ar draws y grwpiau gwleidyddol yn cefnogi'r cynnig i sefydlu cartref nyrsio a darpariaeth gofal ar safle Penyberth. Y bwriad yw diwallu angen amlwg y gellir ei dystiolaethu am ddarpariaeth gofal er budd trigolion Gwynedd. Tra'n llwyr ddeall bod llwyddiant yn dibynnu ar sicrhau ffynonellau ariannu, gallaf eich sicrhau y byddaf i a'r Cynghorydd Craig ap Iago'n gwneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni hyn trwy sicrhau bod ffocws gwaith yr adrannau perthnasol yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r mater yma.

Os y bydd y darnau'n disgyn i'w lle, fe fydd y ddarpariaeth cartref nyrsio a dementia ar ran o safle ehangach Penyberth ac yn sgil hynny fe fydd a chysylltiad agos gyda gweddill y safle. Fodd bynnag, mae'n cael ei ystyried yn ddatblygiad ar wahân gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn arwain ar y cartref nyrsio tra mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn arwain ar y cynllun arfaethedig ar gyfer darparu tai. Nid yw'r cartref nyrsio yn rhan o'r cais

cynllunio ar gyfer ail-ddatblygu tai ar y safle. Fe fydd yn destun cais cynllunio ar wahân ymhen amser.

Tra'n cefnogi'r cynlluniau arfaethedig i ddatblygu darpariaeth gofal newydd ar safle Penyberth, ni roddwyd cefnogaeth ddiamod i gynigion ail-ddatblygu'r safle ehangach. Yn naturiol, fe fyddwn yn parhau i gydweithio gyda Clwyd Alyn i sicrhau fod cynigion a gyflwynir yn addas. Mater i'r Pwyllgor Cynllunio fydd ystyried rhinweddau pob cais cynllunio ar gyfer ail-ddatblygu'r safle. Rwy'n siŵr y byddant yn rhoi sylw priodol i sicrhau y bydd y datblygiadau yn diwallu'r anghenion lleol.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

Yn dilyn cyfarfod gyda Lee Waters yng Nghaerdydd Dydd Mercher y 26ain o Ebrill 2023 i drafod pryderon diogelwch ffyrdd Llanbedr, gai ofyn i'r Arweinydd adrodd i'r Cyngor ar ganlyniad y trafodaethau hynny?

**Ateb – Arweinydd y Cyngor, Y Cyghorydd Dyfrig Siencyn**

"Bu i mi gael y pleser o fynychu cyfarfod gyda Lee Waters a Grŵp Pobl Llanbedr yng Nghaerdydd, ble y bu i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd gyhoeddi ar lafar y byddai'n cefnogi cynlluniau am ffordd osgoi cyflymder isel i Lanbedr, fel rhan o'n cynllun Coridor Gwyrdd.

Mae hyn yn galonogol iawn ac mae'r trigolion lleol wrth eu bodd o glywed y cyhoeddiad, ond er hynny, nid oes cadarnhad o gyllido y cynllun ac felly hyd yma, nid ydym wedi derbyn y sicrwydd o fod yn ei ariannu. Nid ydym chwaith yn ymwybodol o amserlen sydd gan y Llywodraeth mewn golwg ac felly yn edrych ymlaen am unrhyw drafodaethau pellach gyda'r Dirprwy Weinidog er mwyn symud y prosiect yn ei flaen.

Hoffwn innau dalu teyrnged i bobl Llanbedr am eu dyfalbarhad ynglŷn a'r mater yma am weithio mor galed i sicrhau clust y Llywodraeth ar y mater ers nifer o flynyddoedd – mae'n diolch yn fawr am eu hymdrechion."

**(5) Cwestiwn y Cynghorydd Huw Rowlands**

"Mae demograffeg nifer disgyblion ysgolion Gwynedd yn dangos gostyngiad am y blynyddoedd i ddod.

Yn wyneb hyn, pa strategaeth sydd gan Gyngor Gwynedd er mwyn dygymod â'r sialens yma, yn enwedig yng nghyd-destun ysgolion bach a gwledig?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg – Y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae nifer y dysgwyr yng Ngwynedd wedi bod yn gostwng ers peth amser. Ers 1975, mae niferoedd dysgwyr cynradd ac uwchradd y Sir wedi gostwng 24%. Golyga hyn fod dros 4,500 yn llai o blant (3-19 oed) yn ysgolion y Sir heddiw nag oedd yn 1975. Rhwng 2016 a 2022 mae 850 yn llai o ddysgwyr yn ein hysgolion cynradd, gostyngiad o bron i 9% mewn cyfnod o 6 mlynedd. At hyn, disgwylir i niferoedd disgyblion ysgolion cynradd y sir ostwng ymhellach dros y 3 blynedd nesaf, sef oddeutu 500 mewn nifer, sy'n cyfateb i 5%.

O safbwynt nifer yr ysgolion cynradd sydd gennym, mae Gwynedd yn bedwerydd uchaf o holl awdurdodau Cymru, gyda dim ond Caerdydd, Caerfyrddin a Rhondda Cynon Taf gyda nifer uwch o ysgolion cynradd na ni. O safbwynt nifer yr ysgolion uwchradd, Gwynedd yw'r trydydd uchaf (ar y cyd ag Abertawe) o holl awdurdodau Cymru, gyda dim ond Caerdydd a Rhondda Cynon Taf gyda mwy o ysgolion uwchradd na ni. Fodd bynnag, ceir oddeutu 20,000 yn fwy o ddysgwyr cynradd, ac 20,000 yn fwy o ddysgwyr uwchradd yng Nghaerdydd o'i gymharu â Gwynedd. Awgryma hyn nad yw ein cyfundrefn ysgolion presennol yng Ngwynedd yn gynaliadwy.

At hyn, mae nifer fawr o ysgolion bach yn y sir. Dengys cyfrifiad Medi 2022 fod 42 allan o gyfanswm o 79 o ysgolion cynradd Gwynedd yn cwrdd â diffiniad Llywodraeth Cymru o ysgol fach, sef ysgol â llai na 91 o ddysgwyr. Allan o'r 42 ysgol gynradd a ddiffinnir fel ysgol fach, mae gan 29 o'r ysgolion cynradd rheiny lai na 60 o ddysgwyr, a 10 o'r ysgolion lai na 30 o ddysgwyr. Ymhen tair mlynedd, rhagwelir y bydd y nifer o ysgolion cynradd sydd â llai na 30 o ddysgwyr wedi cynyddu i 16. Dylid nodi hefyd fod y dysgwyr yn ein hysgolion lleiaf yn derbyn cyfran uwch o gyllid y dysgwr na'r cyfartaledd ar draws y sir. Ar gyfartaledd, mae'r gost fesul dysgwr yn ein hysgolion cynradd sydd â llai na 30 o ddysgwyr yn £9,040 – sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £4,509.

Gyda'r gyfradd genedigaethau'n gostwng ledled Cymru hefyd, a rhagfynegiadau Llywodraeth Cymru yn awgrymu lleihad pellach o oddeutu 16% yn niferoedd dysgwyr 3-19 oed erbyn 2038, rhagwelir sefyllfaoedd nawr ble nad yw rhai o ysgolion y sir yn gynaliadwy ar sail niferoedd dysgwyr, ac ysgolion eraill ar draws y sectorau'n wynebu heriau cyllidol sylweddol o ganlyniad i'r gostyngiad mewn niferoedd dysgwyr.

Yng nghyd-destun ysgolion bach a gwledig, rydym fel sir yn gweithredu polisi gwarchodaeth sydd yn sicrhau ariannu lleiafswm staff dysgu pan fo niferoedd dysgwyr yn isel. Mae 21 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd yn derbyn cefnogaeth ariannol trwy'r polisi hwn, ac rhyngddynt yn 2022-23 bu iddynt dderbyn swm gwarchodaeth o £787,338. Mae'r fformiwla dyrannu cyllid i ysgolion yn ariannu staff dysgu yn ôl niferoedd dysgwyr. Fodd bynnag, yng Ngwynedd rydym yn gweithredu polisi gwarchodaeth mewn sefyllfaoedd pan nad yw'r nifer dysgwyr yn ddigon i ariannu 2 aelod llawn amser o staff dysgu. Mae'r polisi yn ariannu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a ariennir yn naturiol a'r gost o sicrhau 2 aelod o staff dysgu llawn amser. Os yw nifer dysgwyr llawn amser yn gostwng yn is na 15, yna mae'r gwarchodaeth yn ariannu lleiafswm o 1.5 staff dysgu. Yng nghyd-destun ysgolion uwchradd mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau lleiafswm staff dysgu o 18. Yn sicr, mae'r polisi gwarchodaeth yma wedi cefnogi a galluogi ysgolion lleiaf y sir i ddygymod gyda niferoedd dysgwyr isel dros y blynyddoedd.

Mewn ymateb i effeithiau newid demograffeg ar ein cyfundrefn ysgolion, mae'r Adran yn y broses o lunio strategaeth addysg o'r newydd fydd yn nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr adran ar gyfer moderneiddio'r gyfundrefn ysgolion yng Ngwynedd. Bydd y strategaeth yn nodi sut y byddwn yn datblygu'r gyfundrefn i'r dyfodol gan ymateb i'r heriau demograffig sy'n ein hwynebu wrth i niferoedd dysgwyr y sir barhau i ostwng dros y cyfnod nesaf. Bydd drafft o'r Strategaeth Addysg yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi 2023."